**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Ramsay

**Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai – y newyddion diweddaraf**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn rhoi gwybod imi fod y Pwyllgor yn falch fod yr holl argymhellion wedi'u cwblhau; a bod y Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu cwmpas y rheoliadau ynghylch gwasanaethau i denantiaid; a'u bod hefyd yn croesawu datganiad y Gweinidog mewn perthynas â thenantiaid tai cymdeithasol.

Yn eich llythyr, gwnaethoch ofyn am eglurhad ynghylch sut yr ydym yn mynd i'r afael â chwestiwn sgiliau a gallu'r Tîm Rheoleiddio yn y tymor byr. Fel y dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ei hateb i adroddiad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ("y Bwrdd"), *mae materion yn ymwneud ag adnoddau yn cael eu hadolygu'n gyson yng nghyd-destun cyfyngiadau parhaus ar adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru.* Mae hyn yn parhau i fod yn wir.

Yn benodol mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a'r Bwrdd, mae nifer o fentrau wedi'u rhoi ar waith. Yn ei adroddiad, roedd y Bwrdd "…yn croesawu rhai newidiadau arfaethedig i strwythur y tîm rheoleiddio a'r dull o weithredu'r fframwaith...". Nod y newidiadau y cyfeirir atynt yw sicrhau bod y swyddogaeth reoleiddiol yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol, ac fe'u seiliwyd ar yr adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r tîm wedi bod yn pontio i fodel gweithredu newydd dros y misoedd diwethaf ac, o ganlyniad, mae'r ymrwymiad i ddarparu o leiaf un dyfarniad rheoleiddio ar gyfer pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn parhau ac mae achosion sy'n creu pryder rheoleiddiol yn cael eu rheoli'n effeithiol.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Yn ogystal, gan gydnabod bod gwahanol sgiliau a phrofiad o fewn y tîm, cymeradwyodd y Gweinidog gyllid ar gyfer rhaglen ddatblygu wedi'i hwyluso'n allanol. Mae'r rhaglen hon wedi cychwyn a bydd yn rhedeg dros y pum mis nesaf, fwy neu lai. Yn ogystal â datblygu ymhellach y dull o asesu llywodraethiant (o'n profiad ni, llywodraethiant sydd wrth wraidd y mwyafrif o broblemau y daethom ar eu traws o ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig), mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyfnod hyfforddi a datblygu dwys ar gyfer holl aelodau'r tîm i helpu i ddatrys y diffygion o ran sgiliau. Bydd y rhaglen ddatblygu'n cael ei hymestyn i staff mewn canghennau eraill o'r Is-adran â'r nod o sicrhau bod gan bobl y tu allan i'r tîm wybodaeth ynghylch rheoleiddio. Byddai'r rhain wedyn yn gallu cyfrannu pe byddai pwysau gwaith/capasiti sylweddol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, gallwn sicrhau'r Pwyllgor y bydd unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r broses reoleiddio, o ganlyniad i fentrau sydd yn yr arfaeth neu sydd eisoes ar waith, yn cael eu dadansoddi'n ofalus iawn yn nhermau eu goblygiadau o ran yr adnoddau rheoleiddio sydd ar gael. Rydym hefyd yn sicrhau'r Pwyllgor y byddwn yn sefydlu trefniadau priodol i wneud yn siŵr bod trefn reoleiddio addas i'w diben yn cael ei chynnal, i ddiogelu tenantiaid ac i warchod buddsoddiad cyhoeddus mewn tai cymdeithasol.

Yn gywir



Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk